

Croeso

Ysgol Craig yr Wylfa School

YSGOL
CRAIG
YR
WYLFA

Welcome

Cynlluniwyd y llyfryn yma er mwyn ateb rhai cwestiynau am ein hysgol ac i helpu eich plentyn ymgartrefu ym mywyd prysur yr ysgol.

Teulu'r Ysgol



Pennaeth â Gofal: *Mr Hefin Jones*

Pennaeth Cynorthwyol: Mr. Pete Leggett

Athrawes y Cyfnod Sylfaen: Mrs. Natalie Edwards

Athro Dosbarth Cyfnod Allweddol 2: *Mr. Pete Leggett*

Athrawes Rhan Amser: Miss Lucy Hughes

Gweinyddesau: Mrs. Rhiannon Richards a Miss Michelle James

Ein Cogyddes: Mrs. Wendy Jones

Ein Gofalydd a Glanhawraig : Mrs Shan Bailey

Athrawon Peripatetig: Mrs. Bethan Davies (Cymraeg) Mr. Geraint Evans (Pres) Mrs. Sally Jones (Woodwind) Ms. Rhiannon Evans (Iaith a Lleferydd, SALTSA)

Ein Cyfeiriad

Ysgol Gymunedol Craig yr Wylfa, Tel: 01970 871280

Heol Fransis, e-bost: prif@craigyrwylfa.ceredigion.sch.uk

Borth, Gwefan: www.ysgolcraigyrwylfa.weebly.com

Ceredigion SY24 5NJ

Amser Ysgol

9:00y.b. - 3.30y.p.

Chwarae Bore – 10.30y.b.-10.45y.b.

Cinio – 12:00y.p.– 1:00y.p.

Chwarae Prynhawn– 2:15y.p. – 2:30y.p.

Gofynnwn yn garedig i chi ein hysbysu os oes rhywun arall yn codi eich plentyn o'r ysgol ar ddiwedd y dydd. Os nad ydych wedi ein hysbusu ni fod rhywun arall yn casglu eich plentyn, ni fydd yr ysgol yn rhyddhau eich plentyn. Gofynnwn i chi i aros y tu allan i fynedfa dosbarth eich plentyn am 3.30y.p. Os ydych yn debygol o fod yn hwyr, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Cinio Ysgol

Paratoir pryd blasus yn ddyddiol gan ein cogyddes – Wendy Jones.
Y gost yw £1.90 y dydd, £9.50 yr wythnos. A fyddech gystal â thalu ar fore Llun, sieciau'n ddaliadwy i 'Cyngor Sir Ceredigion' os gwelwch yn dda. Mae amlenni pwrpasol ar gael o swyddfa'r ysgol i'w labelu gyda enw'r plentyn er mwyn cadw'r arian cinio'n ddiogel. Mse'n hanfodol bwysig eich bod yn ein hysbysu ni ar unwaith am unrhyw alergedd fwyd sydd gan eich plentyn os gwelwch yn dda.

Gall pob plentyn gael potel o laeth yn rhad ac am ddim yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen yn ddyddiol. Gan ein bod yn rhan o Gynllun Ysgol Iach Ceredigion, anogir y plant i brynu darn o ffrwyth am 20c o'r Clwb Ffrwythau neu i ddod â darn bach o ffrwyth gyda nhw i fwyta amser chwarae'r bore. Ni chaniateir diodydd siwgr uchel, losin na chreision.

Dillad ac eiddo personol

A wnewch chi sicrhau bod enw eich plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda e.e. cot, siwmper, crys, bag, ayyb.

Rydym yn caniatáu i blant ddod â theganau / eiddo personol i'r ysgol er mwyn dangos i'w ffrindiau ond fe fyddant yn aros gyda'r athro /awes yn y dosbarth. Ambell waith mae pethau yn torri, felly rydym yn eich cynghori i beidio â dod ag eiddo drud neu werthfawr i'r ysgol. Mae'n debygol y bydd eich plentyn yn gwneud gweithgareddau tu allan i'r dosbarth, felly gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo dillad sy'n addas i'r tywydd a bod ganddynt got bob dydd.

Dillad Ysgol

Mae dillad ysgol ar werth yn Figar Sports, Peer Street, Aberystwyth. Gofynnwch i Mr. Leggett os hoffech wybod mwy.

Gwersi Nofio

Mae'r plant yn derbyn gwersi nofio ym mhwll nofio Canolfan Hamdden Plascrug, Aberystwyth ac fe fyddant yn teithio yno ar fws. Fel arfer bydd y plant yn derbyn gwersi nofio ar brynhawn dydd Llun yn ystod Tymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn. Fe fyddai o gymorth i ni os yw eich plentyn yn medru gwisgo ei hunan ac mae'n syniad i wisgo dillad sydd yn hawdd eu gwisgo ar ddiwrnodau nofio. Bydd staff yr ysgol ar gael ar bob adeg i helpu eich plentyn.

Salwch

Peidiwch â danfon eich plant i'r ysgol os ydynt yn teimlo'n sâl neu yn ddi-hwyl a pheidiwch â'u danfon yn ôl i'r ysgol cyn iddynt wella'n llwyr os gwelwch yn dda. A fyddech gystal â rhoi gwybod i ni am unrhyw absenoldeb erbyn 9 o'r gloch y bore os gwelwch yn dda.

Os yw eich plentyn yn teimlo'n sâl yn ystod amser ysgol, gwnawn ein gorau i gysylltu â chi (neu berthynas neu ffrind) er mwyn i rywun ei gasglu/chasglu o'r ysgol.

Os yw eich plentyn yn dioddef o asthma ac yn defnyddio pwmp o ryw fath, a fyddech mor garedig â gofyn i'ch meddyg am bwmp sbâr i'w gadw yn yr ysgol.

Hefyd, os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw anhwylder meddygol, mae'n ddyletswydd arnoch i rannu'r wybodaeth yma gyda ni. Rydym yn cadw'r wybodaeth yma yn hollol gyfrinachol.

Os ydych am i ni ddarparu meddyginiaeth i'ch plentyn yn ystod y dydd, rhaid llenwi'r ffurflen feddygol benodol. Gofynnwch i Mr. Leggett i gael copi o'r ffurflen.

Cadwch lygad manwl am lau pen, gan ein hysbysu os dowch o hyd i rai. Peidiwch â gofidio na theimlo cywilydd! Mae'n debyg mai cribo'n rheolaidd amser gwely, yw'r ffordd orau o'u gwaredu.

Sut allwch helpu eich plentyn?

Mae'r wythnosau cyntaf yn gallu bod yn gyfnod anodd i chi a'ch plentyn. Dyma rai cynghorion all fod o gymorth e'ch plentyn ymgartrefu'n gyflym i fywyd ysgol.

Pan fyddwch yn dod â'ch plentyn i'r ysgol yn y bore, ewch yn gyflym, yn syth ar ôl ffarwelio. Peidiwch ag aros o gwmpas yr ysgol, bydd eich plentyn yn synhwyro eich bod yn gofidio ac mae hyn yn medru achosi gofid i'ch plentyn. Ceisiwch ddilyn trefn dyddiol ee anogwch eich plentyn i hongian ei got / chot yna mynd a'i fag / bag i'r dosbarth a thynnu allan unrhyw beth sydd ei angen e.e. ffrwyth, arian cinio, llyfrau, ayyb.

Ar ddiwedd y dydd siaradwch â'ch plentyn am ddigwyddiadau'r dydd. Chi yw'r person pwysicaf ym mywyd eich plentyn ac fe fyddant am rannu ei b/phrofiadau gennych.

Edrychwch ym mag eich plentyn pob nos am lythyron, nodiadau ac yn y blaen.

Mae'n debygol y bydd eich plentyn wedi blino ar ddiwedd y dydd, ac efallai y bydd yn rhaid newid amser gwely er mwyn dygymod â hyn.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os ydych yn gofidio am adael eich plentyn yn y bore a chofiwch fe fyddwn ni yn cysylltu â chi os oes pryderon yn codi. Hefyd cofiwch gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiwn. Trwy gydweithio fel partneriaid, byddwn yn siwr o roi dechreuad da i fywyd ysgol ein plant.

Peter Leggett (Pennaeth Cynorthwyol)